

# 2023–2024

## Adroddiad Sefydliadol #20

**Y cyfnod dan sylw: 1 Ionawr – 31 Mawrth 2023**

Llun: Dihuno'r Dychymyg: Barddoniaeth yn y Senedd    Cydnabyddiaeth y llun: Mefus Photography

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Cynnwys


Diweddariadau, Uchafbwyntiau a Chipolygon

- Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol 3
- Uchafbwyntiau chwarter 4 4
- Ein lle yn y sector 5
- Geirdaon 6

Ein heffaith:

- Uchafbwynt wrth gyflawni nod: Y Gymraeg: 7

Cynnydd yn erbyn ein targedau

- Cyngor Celfyddydau 2023-24 8
- Targedau Gweihredol 15
- Uchafbwyntiau a diweddariadau Polisi 17

Gwersi i'w Dysgu

- Gweithgaredd a Gweithredol 18

Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25 19


## Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma Gofynion Cyllido CCC a'n gofynion adrodd mewnol sy'n manylu ar yr effaith y gobeithiwn ei chael, ynghyd â'n Gwersi i'w Dysgu.

Dim ond cipolwg o'r gwaith yr ydym yn ei gyflawni y mae targedau Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei gynnig. Mae gennym yn ogystal broses Monitro Effaith drylwyr sy'n dangos sut mae ein holl raglenni'n cyfrannu at ein 7 Nod. Ym mhob Adroddiad fel yr un yma, byddwn yn amlygu un nod ar gyfer y chwarter ac yn adrodd yn fanylach ar yr ystadegau a'r straeon yr ydym wedi'u casglu.

Mae gennym hefyd ystod eang o dargedau gweithredol ar gyfer 2022-25. Ynghlwm wrth ein cynllun strategol mae llawer o gynlluniau gweithredol yn cynnwys Codi Arian, Adnoddau Dynol, Partneriaethau a Chymynroddion, Cynaladwyedd, Cyllid, EDI a Chyfathrebu. O fewn y rhain mae nodau SMART ar gyfer pob blwyddyn. Rydym yn mesur ein cynnydd yn erbyn y rhain yn chwarterol ac ym mhob Adroddiad Sefydliadol bydd trosolwg o'r cynnydd allweddol a wnaed / terfynau amser a gollwyd yn y chwarter.

# Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Artistig a Gweithredol

Wrth lunio ein hadroddiad sefydliadol diwethaf, roedden ni'n aros i glywed am ein sefyllfa gyllid, ar ôl i Lywodraeth Cymru dorri 10.5% ar gyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru. Rydyn ni'n ddiolchgar i'r Cyngor Celfyddydau am drosglwyddo **toriad o 2.5%** yn unig i Llenyddiaeth Cymru a'r sefydliadau eraill sy'n cael cyllid aml-flwyddyn, yn enwedig gan fod y pryderon yn dal i gynyddu am ddyfodol y diwydiannau creadigol a'r sector diwylliant a threftadaeth yng Nghymru. Er gwaethaf ein toriad cymharol fach ni, rydyn ni'n disgwyl y bydd heriau o'n blaenau wrth i ni weithio mewn partneriaeth â'r sefydliadau sydd wedi teimlo'r ergydion. Bydd hynny hefyd yn wyneb y cynnydd yng nghostau byw a chostau gwasanaethau a'r rheidrwydd i weithredu mewn sector celfyddydol pryderus.

Er gwaethaf y toriadau, ein blaenoriaeth o hyd yw cefnogi ein hawduron. Ym mis Mawrth, adnewyddwyd yr ymrwymiad hwn drwy alw ar y gymuned lenyddol i roi tâl teg i awduron, a thrwy gyhoeddi canllawiau ar ffioedd. Mae'r canllawiau hyn yn rhan o gyfres ehangach o gamau gweithredu rydyn ni'n eu cymryd, yn unol â'n gwerthoedd, fel yr amlinellir yn Ein Haddewid.

Y tu hwnt i gynnig gwaith i awduron llawrydd, rydyn ni'n cynnig rhaglenni a chyfleoedd hyfforddiant tymor byr a thymor hir yn flynyddol i awduron. Nod y rhain yw helpu awduron i wella'u crefft, deall y broses gyhoeddi'n well, a hyfforddi fel hwyluswyr llenyddol a fydd yn gallu darparu gweithgareddau yn y gymuned – yn aml gyda chanlyniadau iechyd a llesiant. Mae'r rhaglenni hyn hefyd yn ceisio dod ag unigolion creadigol ynghyd i greu rhwydweithiau, yn annog cefnogaeth gan gymheiriaid, ac yn helpu pobl i arbrofi ac arloesi yn eu celfyddyd lenyddol. Mae nifer o'r rhaglenni hyn yn cael sylw yn y chwarter hwn, yn yr adran sy'n trafod Uchafbwyntiau Gweithgareddau. Cafodd peth o'r gwaith hwn ei ddathlu mewn digwyddiad arddangos arbennig gan Llenyddiaeth Cymru yn adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd ym mis Mawrth. Yn nigwyddiad **Dihuno'r Dychymyg yn y Senedd** – y digwyddiad olaf o bedwar – ymddangosodd ein Cyfarwyddwr Gweithredol, Claire Furlong, ochr yn ochr â'r beirdd Grug Muse, Hanan Issa ac Ifor ap Glyn i drin a thrafod hudoliaeth Tŷ Newydd a'n rhaglenni datblygu awduron eraill. Roedd hi'n ffordd wych o ddathlu diwedd blwyddyn fywiog o weithgareddau.

Leusa Llewelyn, Cyfarwyddwr Artistig
Claire Furlong, Cyfarwyddwr Gweithredol




Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

# Uchafbwyntiau

## Gweithgareddau

- Cyhoeddwyd 6 o **Gyrsiau Blasu Digidol yn Nhŷ Newydd** i'w cynnal yn y pedwerydd chwarter, a'r rheini'n rhoi sylw i amryw o genres gan gynnwys llên meicro, barddoniaeth, ac ysgrifennu am gariad cwîar.
- Cynhaliodd y cynllun **Cynrychioli Cymru 3** ei weminar rhad ac am ddim olaf, a oedd yn agored i'r cyhoedd, ynghylch meithrin gwydnwch fel awduron.
- Yn ystod Chwarter 4, caeodd y ffenestr ymgeisio ar gyfer cynllun **Awduron Wrth eu Gwaith 2024** Gŵyl y Gelli – cynllun sy'n cael ei gynnal mewn partneriaeth â Llenyddiaeth Cymru. Denwyd 125 o geisiadau cryf.
- Bu **Bardd Plant Cymru**, Nia Morais, yn cynnal sesiynau llenyddiaeth plant yng Ngŵyl Lenyddiaeth Kolkata, fel rhan o gynllun Cymru yn India Llywodraeth Cymru.
- Fis Mawrth, cynhaliwyd y pedwerydd digwyddiad Barddoniaeth yn y Senedd – **Dihuno'r Dychymyg** – gan ganolbwyntio ar ein gwaith datblygu awduron. Roedd Grug Muse, Hanan Issa ac Ifor ap Glyn yn cymryd rhan.
- Croesawodd **Tŷ Newydd** 10 o fenywod ac/neu unigolion sydd â rhyweddau ar y cyrion i encil Cymraeg a gyfunai gerddoriaeth, barddoniaeth a pherfformio barddoniaeth, a hynny fel rhan o gwrs strategol.
- Cyhoeddwyd bod *(Un)Common: Anthology Of New Welsh Writing*, sef blodeugerdd **Cynrychioli Cymru 2**, ar y ffordd, ac roedd modd rhagarchebu




Mewn partneriaeth ag S4C a Rondo, rhannwyd cerdd fideo newydd i nodi pen-blwydd Cranogwen.



Cyhoeddwyd pwy fyddai mentoriaid rhaglen hyfforddi Sgwennu'n Well.




Dewiswyd pump o feirdd i fod yn rhan o raglen Pencerdd, gan cael cyfle i ddatblygu eu crefft gynganeddol.

Cyhoeddodd Llenyddiaeth Cymru addewid i roi ffioedd teg i awduron.




Cyhoeddwyd pwy fyddai beirniaid Cymraeg a Saesneg Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2024.



Dadorchuddiwyd cerflun cymunedol mewn dathliad yng Nghae'r Gors, a hynny fel rhan o gynllun Llên mewn Lle.

## Gweithrediadau

- Yn ystod y chwarter hwn, fe wnaethon ni gyhoeddi 'Ein Haddewid', sy'n cyflwyno cyfres o gamau y byddwn ni'n eu cymryd fel sefydliad i weithio yn unol â'n gwerthoedd. Mae hyn yn cynnwys ymrwymo i ffioedd teg i awduron llawrydd ac eirioli dros hynny, gan ddatblygu ar waith ymchwil a wnaed gyda Chanolfan Creadigrwydd, Arweinyddiaeth ac Economïau Rhanbarthol Prifysgol Aberystwyth.
- Cwblhawyd y broses o recriwtio am Gydlynydd Cyfathrebu a Digwyddiadau yn llwyddiannus, ac ymunodd Mirain Llŷn Roberts â'r tîm yn y swydd hon ar ddiwedd y chwarter.
- Mae cyflwyniadau mewnol wedi parhau i gael eu rhoi yn ystod ein cyfarfodydd staff rheolaidd, gan gynnwys cyflwyniadau am weithgareddau Llenyddiaeth Cymru (cafwyd cyflwyniad am Fardd Plant Cymru yn ystod y chwarter hwn) ac am faterion gweithredol (cafwyd sesiwn am greu dogfennau hygyrch).
- Cafodd Ymddiriedolwyr Llenyddiaeth Cymru gyfarfod arall ym mis Chwefror, gan groesawu Mohamed Hassan yn aelod newydd o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Cafodd staff swyddfa Caerdydd hyfforddiant ym maes diogelwch tân. Yn dibynnu ar ganlyniadau eu harholiadau, bydd aelodau'r staff yn cael Dyfarniad Lefel 2 HABC mewn Diogelwch Tân – cymhwyster mewn rheoli diogelwch tân yn y gweithle.
- Cwblhaodd yr holl staff eu hadolygiadau o ddatblygiad perfformiad yn y chwarter hwn. Mae'r broses flynyddol hon yn rhoi cyfle i'r staff ddathlu eu llwyddiannau dros y flwyddyn ddiwethaf a chnoi cil am eu datblygiad proffesiynol yn y flwyddyn sydd i ddod.
- Cytunwyd ar dargedau, gan gynnwys canlyniadau ac allbynnau gweithgareddau a materion gweithredol, ar gyfer adrodd i Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r targedau hyn yn sail i'n cytundeb cyllido aml-flwyddyn gyda'r Cyngor Celfyddydau, a byddan nhw'n sicrhau ein bod ni'n cyflawni amcanion y sefydliad ac yn casglu tystiolaeth i ddangos effaith ein gwaith.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Ein lle yn y Sector

Bu'r chwarter diwethaf hwn yn un caled i'r sector celfyddydau a diwylliant wrth i hwnnw ymateb i doriadau anferth yn y cyllid sy'n cael ei roi gan y llywodraeth (e.e. toriadau o 10.5% i Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru). Mae nifer o sefydliadau'n wynebu prosesau ailstrwythuro anodd ac yn edrych eto ar eu lle nhw yn y sector. Er bod yr effaith uniongyrchol arnon ni'n weddol ysgafn, mae'r ansicrwydd hwn wedi cael effaith aruthrol ar ein prosesau cynllunio ac ar ein partneriaethau.

Yn ystod y chwarter hwn, buon ni'n ymgynghori am ddyfodol Gwobr Llyfr y Flwyddyn gyda Chyngor Llyfrau Cymru, Cyhoeddi Cymru, Cwlwm Cyhoeddi a rhanddeiliaid eraill. Er mai ni sy'n arwain y prosiect hwn, mae'r holl sector cyhoeddi yng Nghymru'n gwerthfawrogi'r digwyddiad, ac felly holwyd pobl am eu blaenoriaethau gan gofio na fydd cyllideb y rhaglen yn newid. Roedd consensws ynghylch natur a chwmpas bras yr hyn rydyn ni'n ei ddarparu, ond cafwyd sylwadau defnyddiol i'w hystyried, fel rhoi pecynnau gwybodaeth i werthwyr llyfrau/trefnwyr digwyddiadau am y rhestr fer, ac fel mater o flaenoriaeth, rhoi cymorth i gyhoeddwyr drefnu digwyddiadau ychwanegol i'w hawduron.

Parhaodd ein tîm i gynghori sefydliadau llenyddol eraill am ddatblygu prosiectau yn ystod y chwarter diwethaf, gan gynnwys: helpu'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol i ddatblygu eu rhaglen i ddarllenwyr ifanc, helpu i ddatblygu Gwobrau Barddoniaeth Jerwood, a helpu i lansio #readforempathy gyda'r Empathy Lab.

Roedden ni hefyd yn falch o gynorthwyo Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gyda'i waith rhyngwladol ym mis Mawrth, drwy roi cyflwyniad i Sefydliadau Diwylliant Cenedlaethol yr Undeb Ewropeaidd am sut y mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi sail i'n strategaeth.

Ar raddfa lai, ond yr un mor bwysig, rydyn ni wedi bod yn helpu cais a fydd yn cael ei anfon i Gronfa Dreftadaeth y Loteri a cheisiadau eraill i wneud gwaith cymunedol yn Llanystumdwy, gyda'n gwybodaeth am y sector yn hwb i hynny.




*Disgyblion o Ysgol Llanystumdwy gyda'r canwr-gyfansoddwr Yws Gwynedd; Rob Page, Rheolwr tîm pêl-droed dynion Cymru; ac Ian Gwyn Hughes o Gymdeithas Bêl-droed Cymru. Gwnaed hyn yn bosibl drwy gymorth Llenyddiaeth Cymru i wneud cais am gyllid ar ran Menter y Plu, Ysgol Llanystumdwy, a Chlwb Pêl-droed Llanystumdwy. Cydnabyddiaeth y llun: Cymdeithas Bêl-droed Cymru*

Wrth i flwyddyn ariannol 2023/24 ddod i ben, mae'n braf cnoi cil am brofiadau'r bobl bwysicaf yn ein gwaith: yr awduron, y cyfranogwyr a'r hwyluswyr y byddwn ni'n rhoi cymorth iddyn nhw.

Roedd hi'n wych gweld awduron rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda nhw dros y blynyddoedd diwethaf yn canmol Llenyddiaeth Cymru yn gyhoeddus.

Cyfeiriodd **Sioned Erin Hughes** at Dŷ Newydd a Llenyddiaeth Cymru ill dau yng nghydnabyddiaethau ei llyfr newydd, *'O'r Rhuddin'* (Y Lolfa). Yn y llun ar y chwith.



**Diolchiadau**

Diolch i wasg y Lolfa am y ffydd a'r ymddiriedaeth, ac yn arbennig i Meinir Wyn Edwards am ei golygu gofalus, ei hawgrymiadau gwerthfawr, ac am barchu fy ngweledigaeth yn llwyr gyda phopeth rydw i'n ei sgwennu.

Diolch i Dr Alaw Mai Edwards am ei llygaid treiddgar a'i hadborth doeth, ac i Alan Thomas am amynedd sant wrth gysodi – mi wnaeth waith cwbl arbennig arni.


I fy chwaer, Cain, diolch am glawr bendigedig ac am ddal yr union beth oedd gen i mewn golwg fel dyluniad, ti wir yn sbesial.

I'r Cyngor Llyfrau, diolch am gefnogi'r gyfrol ac am y cyllid i allu parhau i sgwennu.

I Lenyddiaeth Cymru, mae'r diolch yn ddiddiwedd. Diolch am gael bod yn rhan o garfan Cynrychioli Cymru 2023–24, mae'n fraint fydda i'n ei chadw'n dynn am byth.

Diolch yn arbennig i griw Tŷ Newydd am fy nghefnogi gyda phob dim rydw i'n ei wneud, ac i'r ddwy Firiam (Miriam Sautin a Miriam Williams) am bob anogaeth.

Mae cymaint o unigolion sy'n haeddu diolch, ond i nadu fy hun rhag rhestru, mi ddyweda i ddiolch i bawb am bob dim a gobeithio fy mod i'n cwmpasu'r cwbl lot felly!



**Acknowledgements**

I must thank every student I've had the pleasure of visiting. Reading poetry and writing together has been inspirational. It reminds me that I'm doing the right thing, that poetry helps to improve lives. I've had the support of teachers, parents, librarians, festival organisers and many organisations, thank you.

Diolch yn Fawr to the wonderful staff at Literature Wales, for challenging me with opportunities and for an entire year of support via the Representing Wales Programme. There, I had the pleasure of being mentored by the incredible Philip Gross, a truly wonderful and thoughtful experience – thank you.

I'm very grateful to be in the hands of Firefly Press again, thank you to Penny Thomas for trusting in my work. I'm inspired by the world; I love being alive! Being open to the people and ideas that beat and buzz around us, allows us the opportunity to reflect. To create and share our findings through poetry, art, music and stories. So, thank you to everyone that makes life a little brighter. My family, my friends and those I'm yet to meet. Much love to you all. Keep shining.

Roedden ni yr un mor falch o weld cydnabyddiaeth arall gan y Children's Laureate Wales, **Alex Wharton**, yn ei gyfrol ddiweddaraf, *'Red Sky at Night Poet's Delight'* (Firefly Press).

At hynny, mewn cyfweliad diweddar gyda Nation Cymru, dywedodd **Taz Rahman**, a fu'n rhan o grŵp awduron Cynrychioli Cymru cyn mynd yn ei flaen i gydolygu a chyhoeddi nifer o flodeugerddi:

> *"Roedd 'Cynrychioli Cymru', cynllun datblygu awduron newydd Llenyddiaeth Cymru yn 2021, a'r cyfle dilynol i gael fy mentora gan **Zoë Brigley**, sef yr unigolyn mwyaf dylanwadol bellach yn y byd cyhoeddi barddoniaeth Saesneg yng Nghymru, yn gwbl ganolog wrth fy helpu i sylweddoli peth pwysig tu hwnt: mae bregusrwydd yn ased."*

Ac wrth i gyfnod grŵp o awduron Cynrychioli Cymru 2023-24 ddod i ben, rydyn ni wedi cael adborth hyfryd gan y mentoriaid:

> *"Balchder llwyr ydy'r teimlad rydw i wedi'i gael drwy weithio fel mentor ar y rhaglen hon. Mae'r cyfle i wylio awdur yn tyfu ac yn datblygu, gan gymryd camau breision i gyflawni'i botensial, yn brofiad bendigedig. Bydd awduron yn rhoi rhoddion i bawb o'u hamgylch, ac mae'r rhaglen hon yn sicrhau bod awduron yng Nghymru cystal ag y gallan nhw fod, drwy alluogi cynulleidfaoedd i fwynhau'u creadigrwydd a thrwy ysbrydoli'r genhedlaeth a ddaw ar eu holau.*
>
> – Jonathan Edwards, Mentor Cynrychioli Cymru 3"

# Uchafbwynt Ein Sylfaen:

# **Y Gymraeg**

Creu Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a'n llenyddiaeth yn cynrychioli ein lleisiau amrywiol.

## Bardd Plant Cymru

Ers dechrau ei chyfnod ym mis Medi 2023, mae Nia wedi gweithio gyda 13 o ysgolion a grwpiau, gan gyrraedd 1089 o blant a phobl ifanc drwy nifer o brosiectau fel: **Dathlu Diwrnod T. Llew Jones, Gŵyl Gerallt** a **Celf ar y Cyd**.

Yn 2024, teithiodd Nia ar hyd ac ar led Cymru, gan ymweld â saith o ysgolion i arwain gweithdai ysgrifennu creadigol.




*Yn y llun mae map o Gymru gyda sêr i ddangos lleoliadau'r ysgolion mae Nia wedi ymweld â nhw.*

Gan ddefnyddio casgliad celf gyfoes ar-lein Amgueddfa Cymru, bu pobl ifanc yn trin a thrafod y berthynas rhwng celf a llenyddiaeth. Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect Celf ar y Cyd ar ein gwefan, ynghyd â chyfle i ddarllen y cynnyrch creadigol mewn pamffled barddoniaeth.

Gyda chymorth cynllun Cymru yn India Llywodraeth Cymru, teithiodd Nia hefyd i Kolkata i arwain trafodaeth banel, cynnal sesiynau am lenyddiaeth plant a thrafod y Gymraeg. Mae rhagor o wybodaeth am ei thaith ar ein gwefan.

## Pencerdd

Mae Pencerdd yn rhaglen beilot blwyddyn o hyd sy'n cael ei chynnal mewn partneriaeth â Barddas. Ei nod yw datblygu pump o feirdd sy'n newydd i'r traddodiad, a meithrin lleisiau a safbwyntiau newydd yn y byd cynganeddu yng Nghymru, gan godi proffil canu caeth. Ym mis Mawrth, croesawyd y beirdd i gwrs preswyl yn Nhŷ Newydd, gyda Rhys Iorwerth a Manon Awst yn diwtoriaid. Bydd pob un o'r awduron yn cael eu paru â mentor am flwyddyn o sesiynau un-i-un. Bydd y grŵp hefyd yn cymryd rhan mewn gweithdai ar-lein, yn cael tanysgrifiad blwyddyn i gylchgrawn Barddas, yn rhan o rwydwaith cefnogol, ac yn cael gwybodaeth am gystadlaethau eisteddfodau lleol a chyfleoedd perthnasol eraill. Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen, ac am y pump awdur llwyddiannus, ar dudalen prosiect Pencerdd.

## Digwyddiad y Senedd

Nos Fawrth 19 Mawrth, cynhaliodd Llenyddiaeth Cymru ei bedwerydd digwyddiad Barddoniaeth yn y Senedd. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar ddatblygu awduron, ac ar gyfraniad hollbwysig Tŷ Newydd at hynny. Bu'r bardd Grug Muse, y Bardd Cenedlaethol presennol, Hanan Issa, a'r cyn-Fardd Cenedlaethol, Ifor ap Glyn, yn rhannu'u profiadau nhw o Dŷ Newydd.

Denodd y digwyddiad gynulleidfa o 63 o unigolion, yn eu plith bartneriaid, cynrychiolwyr o'r cwmnïau cenedlaethol, a 23 o aelodau EUNIC (Sefydliadau Diwylliant Cenedlaethol yr Undeb Ewropeaidd). Noddwyd y digwyddiad gan Dawn Bowden AS ac fe'i cefnogwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru.



Lluniau o Ddihuno'r Dychymyg: Barddoniaeth yn y Senedd
Cydnabyddiaeth y llun: Mefus Photography

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod: Yr Argyfwng Hinsawdd:** Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd y flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Parhau i ddarparu cynllun **Llên mewn Lle,** gan roi cyfleoedd i feirdd lleol amlwg ddatblygu gwaith yn eu cymunedau lleol, a hwnnw'n rhoi sylw i faterion sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd drwy lenyddiaeth. | **Wedi'i gyflawni:** Mae'r tair rhaglen Llên mewn Lle wedi cael eu cyflawni. Mae un ohonyn nhw, LUMIN, yn dal i gasglu a golygu detholiad o waith sydd i'w gyhoeddi yn 2024. Mae'r ddwy raglen arall wedi dod i ben gyda digwyddiadau rhannu yn eu cymunedau. Fel rhan o'r prosiect Gwledda yn Rhosgadfan, datgelwyd cerflun newydd o glogyn Kate Roberts ac arno eiriau a grëwyd yn y gweithdai cymunedol. Yn Nhreherbert, mae straeon y gwahanol grwpiau cymunedol wedi'u rhoi ar fap digidol, gyda chodau QR wedi'u gosod ar hyd llwybr cerdded newydd. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff. |
| Datblygu a gwerthuso prosiectau grŵp o awduron 1, a recriwtio grŵp o awduron 2 ar gyfer Llên mewn Lle mewn partneriaeth â WWF. | **Wedi'i gyflawni:** Mae dwy ardal wedi'u dewis ar gyfer yr ail grŵp – Bethesda a Thyddewi – gan ddatblygu partneriaethau gyda Phartneriaeth Ogwen ac EcoDewi. Mae'r bartneriaeth gyda WWF wedi parhau, a chafwyd rhagor o gymorth ar gyfer y prosiect yn Sir Benfro.<br>Mae'r gwaith o werthuso grŵp 1 wedi bod yn mynd rhagddo. Cwblhawyd gwerthusiad canol tymor a'i ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau yn ail hanner y prosiectau. Er enghraifft, anogwyd Sion yn Nhreherbert i weithio gyda grwpiau cymunedol ychwanegol er mwyn hwyluso mwy o gydlyniant cymunedol a mwy o ymwybyddiaeth yn lleol o'r gwaith. Mae prosiectau grŵp 1 i gyd yn dod i ben rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024, a bydd gwerthusiad terfynol yn cael ei gwblhau bryd hynny. | |
| Canolbwyntio ar greu prosiectau lleol a datblygu cysylltiadau â'r gronfa Ysbrydoli Cymunedau, yn ogystal â chyhoeddi canllawiau ar gynnal gweithgareddau llenyddol cynaliadwy. | **Yn mynd rhagddo/Heb ei gyflawni:** Mae'r Gronfa Ysbrydoli Cymunedau wedi cefnogi 274 o ddigwyddiadau a 193 o awduron<br>Rydyn ni wedi gweithio i roi cyhoeddusrwydd i'r gronfa, gan ennyn diddordeb awduron a chymunedau newydd. Er enghraifft, aeth Siliva Rose, awdur a fu'n rhan o'n cwrs (Ail)Sgwennu Cymru, yn ei blaen i drefnu gweithdy ysgrifennu 'Cyfeillion Croesor' gyda chyllid gan y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau. Nid oes gennyn ni lawer o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal yn ardal Conwy, felly fe roeson ni gymorth i gynnal 'Diwrnod Dathlu Darllen' gyda Nia Morais, Myrddin ap Dafydd a Megan Hunter yn yr ysgol leol.<br>Dydyn ni ddim wedi cyhoeddi canllaw penodol ar gyfer cynnal digwyddiadau cynaliadwy, ond mae canllawiau wedi'u cynnwys yn y cyngor cyffredinol i drefnwyr digwyddiadau. O fis Ebrill 2024, rydyn ni'n rhoi ein canllawiau am ffioedd awduron ar waith, ynghyd â chynyddu'r gyfradd gyllid i 75% i helpu awduron i ddatblygu gyrfaoedd cynaliadwy. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod: Iechyd a Llesiant**: Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd y flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| **Ehangu a datblygu ein partneriaethau** cryf yn y maes iechyd a llesiant, gan gynnwys gyda Choleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru, y Reading Agency, byrddau iechyd lleol, a Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru. | **Wedi'i gyflawni:** Drwy gydol y flwyddyn, mae'r staff wedi blaenoriaethu partneriaethau yn y maes hwn. Mae'r bartneriaeth â Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru yn nodedig, a ninnau'n rhan o'u grŵp llywio ac wedi mynychu nifer o sesiynau hyfforddiant.<br>Parhaodd y bartneriaeth â Mind Casnewydd drwy gydol y flwyddyn, gyda chyllid ychwanegol yn cael ei neilltuo i'r prosiect, a hwnnw bellach wedi dod i ben.<br>Mae partneriaethau newydd wrthi'n cael eu datblygu, fel hwnnw gyda Chydlynydd Celfyddydau ac Iechyd newydd Felindre. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Darparu'r prosiect peilot, **Sgwennu'n Well,** gan feithrin 6 hwylusydd o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli a'u helpu i ddatblygu eu hymarfer mewn prosiectau partneriaeth Iechyd a Llesiant. | **Wedi'u cwblhau:** Mae'r 6 hwylusydd bellach wedi cwblhau'r gyfres o Sesiynau Datblygu Artistiaid, gan gefnogi'r awduron i ddatblygu eu sgiliau yn hwyluso gweithgareddau llenyddol yn y gymuned. Mae'r awduron hefyd wedi cael sesiynau un-i-un gyda'u mentoriaid, a'r rheini wedi bod yn rhoi cyngor a chymorth penodol i ddatblygu eu prosiectau cymunedol, a fydd yn cael eu cynnal yn Chwarteri 1 a 2 y flwyddyn nesaf. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod: Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb**: Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd y flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Darparu trydedd rownd Cynrychioli Cymru, a recriwtio i'r bedwaredd rownd, gan fuddsoddi'n ddwys mewn 28 o awduron, gyda phob un yn cynrychioli cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd yn Niwylliant Llenyddol Cymru. | **Wedi'i gyflawni:** Cafodd 14 o awduron gymorth dwys wrth gynnal cynllun Cynrychioli Cymru am y trydydd tro, gan ganolbwyntio ar ddatblygu gweithiau newydd i bobl ifanc a phlant. Bydd hyn yn cael ei ddathlu dros gyfnod o wythnos ar y cyfryngau cymdeithasol ddechrau mis Ebrill, cyn y cynigir 3 blynedd yn rhagor o gymorth i'r awduron fel rhan o'r rhaglen ôl-ofal.<br>Ym mis Mawrth, cafodd yr 14 awdur llwyddiannus sydd wedi'u dewis ar gyfer pedwaredd rownd Cynrychioli Cymru gyfarfod yn rhithwir am y tro cyntaf. Bydd eu henwau'n cael eu cyhoeddi ganol mis Ebrill. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff. |
| Drwy Cynrychioli Cymru, ymwneud â thua 300 o unigolion fel rhan o'r rhaglen ehangach. | **Heb ei gyflawni:** Cofrestrodd 305 o unigolion i fod yn rhan o saith o sesiynau cyhoeddus, er mai dim ond 71% o'r unigolion hynny a aeth yn eu blaenau i wylio'r sesiwn (mae'r ystadegau'n cynnwys y rheini a wyliodd yn fyw a'r fersiwn wedi'i recordio). | |
| Monitro esblygiad y rhaglen a'i heffaith hirdymor, gan gynnwys ymwneud â'r grwpiau presennol o awduron. | **Wedi'i gyflawni/Yn mynd rhagddo:** Yn Chwarter 1, cwblhawyd y gwaith mentora ôl-ofal gyda grŵp cyntaf o awduron Cynrychioli Cymru, gyda'r awduron a'r mentoriaid yn awgrymu bod rhaglen Cynrychioli Cymru wedi arwain at greu perthnasau cadarnhaol ac effeithiol. Yn Chwarter 2, bu pump aelod o'r ail grŵp o awduron yn Niwrnod Diwydiant Awduron wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli, a hynny'n rhad ac am ddim. Yn Chwarter 3, mwynhaodd deuddeg o aelodau grŵp o awduron 2022/23 benwythnos preswyl "Llwybrau i Gyhoeddi" yn Nhŷ Newydd, a hynny gyda'r tiwtor Julia Forster. Yn Chwarter 4, cynigiwyd taleb gwerth £100 i holl gyn-aelodau Cynrychioli Cymru ar gyfer cyrsiau Tŷ Newydd. Byddwn ni'n parhau i gadw mewn cysyllt â'r awduron, gan gynnig cymorth ysgafn pan fydd hynny'n berthnasol a dysgu am eu cynnydd. | |
| Marchnata o leiaf 1 darn o farchnata drwy gyfrwng BSL ar gyfer prosiect cyn diwedd y flwyddyn, ac asesu i ganfod effaith hynny. | **Wedi'i gyflawni:** Yn Chwarter 2, crëwyd taflen BSL ddwyieithog ar gyfer galwad Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad, mewn partneriaeth â Celfyddydau Anabledd Cymru. Gwelwyd fersiwn Gymraeg y daflen 3 gwaith a'r fersiwn Saesneg 31 gwaith i gyd. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod: Diwylliant Llenyddol Cymru:** Sicrhau ymgysylltiad ehangach, gwell hygyrchedd a rhagor o effaith ar gyfer gweithgareddau ysgrifennu creadigol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd y flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Gweithio gyda'n cydweithwyr yn y Cwmnïau Cenedlaethol i ddylunio a darparu rhaglen newydd o'r enw **Newid Diwylliant,** a fydd yn cynnwys hyfforddiant ac ymchwil i sicrhau gwell amrywiaeth ymhlith arweinwyr. | **Yn mynd rhagddo:** Bu oedi wrth gyflwyno'r rhaglen, ond mae hi bellach ar y trywydd iawn ac mae'n cael ei rheoli gan Ritchie Turner & Associates.<br>Mae un o'n haelodau o staff yn aelod o'r grŵp ffrindiau beirniadol, sy'n rhan hollbwysig o'r rhaglen hon, a hwnnw wedi cwrdd bedair gwaith. Maen nhw wedi creu tendrau ar gyfer y rhaglen hyfforddiant ac wedi datblygu deunydd cyfathrebu.<br>Mae'r hyfforddiant yn golygu creu a darparu hyfforddiant gwrth-hiliaeth i'r cwmnïau cenedlaethol ac aelodau eraill o'r rhaglen newid diwylliant ym mis Mai/Mehefin 2024. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff. |
| Cynnull partneriaid llenyddol, fel Cyngor Llyfrau Cymru a Cyhoeddi Cymru, i ddatblygu cynllun ar gyfer prosiect partneriaeth hirdymor a fydd yn canfod ac yn hyfforddi mwy o awduron Cymraeg sy'n cael eu tangynrychioli gyda'r nod o gyhoeddi llyfrau i blant a phobl ifanc. | **Heb ei gyflawni:** Serch hynny, mae cyfarfodydd wedi'u cynnal â'r partneriaid hyn, ac mae cynlluniau i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd rhwng Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru eleni. Bydd tangynrychiolaeth a chydweithio wrth droi ysgrifenwyr yn awduron cyhoeddedig yn ganolog i'r ddogfen hon. | |
| Dadansoddi'r canfyddiadau perthnasol o'r Arolwg Rhanddeiliaid, cyflwyno'r canfyddiadau i staff, a chynnal cyfarfod i drafod y camau y mae angen eu cymryd. | **Wedi'i gwblhau:** Cyflwynwyd canfyddiadau'r arolwg rhanddeiliaid i staff ym mis Mehefin, a thrafodwyd syniadau wedyn mewn cyfarfod creadigol. Yn Chwarter 3, cynhaliwyd trafodaeth fewnol am gynnal arolygon ymhlith rhanddeiliaid yn y dyfodol. Gwnaed y penderfynid i adolygu'r cwestiynau'n fwy trylwyr er mwyn penderfynu pa gwestiynau y gellid eu tracio dros gyfnod hwy o amser, yn hytrach nag ymateb i un flwyddyn ariannol yn unig. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod: Y Gymraeg:** Ymrwymo i ddatblygu ac achub ar y cyfleoedd y mae creadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu cynnig.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd y flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Penodi Bardd Plant Cymru newydd a fydd yn ymrwymo o leiaf 25 o ddiwrnodau'r flwyddyn (13 pro rata yn 23/24) i ddarparu gweithgareddau creadigol i blant Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. | **Wedi rhagori:** Penodwyd Nia yn haf 2023 ac mae hi wedi darparu 17.5 diwrnod o weithgareddau.<br>Yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth, treuliodd Bardd Plant Cymru 7 diwrnod yn ymweld ag ysgolion drwy Gymru i weithio ar brosiect Celf ar y Cyd. Bu'r prosiect yn canolbwyntio ar amcanion y Siarter Iaith, gan ddangos i ddisgyblion sut y gallan nhw ddefnyddio'r Gymraeg a barddoniaeth i fynegi'u hunain a lleisio'u barn. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff. |
| Sicrhau bod o leiaf 10 o awduron Cymraeg yn cael cyfleoedd datblygu dwys, hirdymor yn 23/24 (e.e. drwy Cynrychioli Cymru neu Sgwennu'n Well). | **Wedi rhagori:** Dechreuodd rhaglen blwyddyn o hyd Pencerdd yn Chwarter 4, gan gynnig cyfleoedd datblygu i 5 o feirdd Cymraeg ym maes y gynghanedd. Mae'r rhaglen, sy'n cael ei chynnal mewn partneriaeth â Barddas, yn cynnwys cwrs preswyl yn Nhŷ Newydd a gynhaliwyd ym mis Mawrth. Dilynir hyn gan sesiynau un-i-un gyda mentoriaid, gweithdai digidol, a thanysgrifiad i gylchgrawn Barddas. Ar y cyd â'r naw o awduron a grybwyllwyd eisoes, mae'n golygu bod 14 o awduron Cymraeg yn cael cyfleoedd datblygu dwys, hirdymor yn ystod 23/24. | |
| Trefnu cwrs dysgu Cymraeg penodol i ddechreuwyr ar gyfer awduron sy'n gweithio'n ddwys gyda ni ar amrywiaeth o brosiectau. | **Wedi'i gyflawni:** Bu 6 o awduron rydyn ni'n gweithio'n agos gyda nhw ar gwrs preswyl wythnos o hyd i ddysgu Cymraeg yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd ym mis Ionawr. Mae hyn yn dilyn dau gwrs penodol, a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ar lefelau Mynediad a Sylfaen ac a ddenodd 13 o awduron i gyd. | |
| Lansio galwad am raglen ddatblygu newydd sbon, Pencerdd, i roi cyfleoedd datblygu dwys i 6 bardd newydd yng nghrefft y gynghanedd, mewn partneriaeth â Barddas. | **Wedi'i gyflawni:** Ar ôl galwad agored yn gwahodd beirdd Cymraeg i wneud cais i fod yn rhan o'r rhaglen, mae pump o feirdd wedi'u dewis, a chyhoeddwyd eu henwau ym mis Chwefror. Dechreuodd y rhaglen ym mis Mawrth gyda chwrs preswyl yn Nhŷ Newydd i'r pum bardd. Fel yr eglurwyd eisoes, oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, mae maint y prosiect wedi'i leihau o chwe bardd i bum bardd. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

## Mesur Gweithrediadol: Tŷ Newydd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Cynnal o leiaf 3 encil preswyl yn rhad ac am ddim yn Nhŷ Newydd, neu'n rhithwir o dan faner Tŷ Newydd, i grwpiau o awduron sy'n cael eu tangynrychioli, gan gynnig gweithdai i ddatblygu eu crefft a'u gyrfaoedd. Ymhlith y grwpiau fydd awduron anabl, awduron LHDTC+, awduron Cymraeg, awduron benywaidd o liw, a rhagor. | **Wedi'i gyflawni:** Yn 2023, cynhaliwyd tri encil rhad ac am ddim yn Nhŷ Newydd, ac yn eu plith ein cwrs Nodyn ar Natur i awduron benywaidd o liw, encil dros benwythnos i awduron LHDTCA+ Cymraeg, a dosbarth meistr Cymraeg dros benwythnos i bobl 18-25 oed mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru. Ochr yn ochr â hyn, rydyn ni hefyd wedi cynnal cwrs digidol mewn partneriaeth â Celfyddydau Anabledd Cymru, yn canolbwyntio ar Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad gyda Kaite O'Reilly. Yn achos yr holl weithgareddau uchod, bydd Llenyddiaeth Cymru'n parhau i gefnogi'r awduron a dod o hyd i gyfleoedd mewnol ac allanol iddyn nhw. | Cofnodion Tŷ Newydd |
| Cynnig o leiaf 10 ysgoloriaeth i awduron sy'n cael eu tangynrychioli i fynd ar gwrs, neu i gael encil, yn Nhŷ Newydd/Nant. | **Wedi'i gyflawni:** Yn ystod 2023/24, rydyn ni wedi cynnig ugain o ysgoloriaethau i awduron sy'n cael eu tangynrychioli i fynd ar gwrs neu i encil yn Nhŷ Newydd. | |
| Trefnu encil penwythnos LHDTCA+ Cymraeg yn Nhŷ Newydd. | **Wedi'i gwblhau:** Fe wnaethon ni groesawu 14 o awduron Cymraeg o'r gymuned LHDTCA+ i'n hencil dros benwythnos a drefnwyd mewn partneriaeth â Llyfrau Lliwgar ym mis Tachwedd 2023. Ymhlith yr hwyluswyr creadigol a'r darllenwyr gwadd roedd Leo Drayton, Llio Maddocks a Paul Mendez. | |
| Lansio galwad am gyfranogwyr Cymraeg sy'n arddel rhywedd sydd ar y cyrion i gymryd rhan mewn cwrs yn Nhŷ Newydd i ddatblygu sgiliau perfformio barddoniaeth | **Wedi'i gwblhau:** Rydyn ni wedi lansio galwad mewn partneriaeth â chydweithfa Kathod ar gyfer gweithwyr creadigol ac artistiaid benywaidd a'r rheini sydd â rhyweddau ar y cyrion. Cynhaliwyd yr encil ym mis Chwefror 2024 gyda 10 o gyfranogwyr, 4 o gydlynwyr presennol Kathod, a'r hwyluswyr creadigol, Branwen Munn a Rufus Mufasa. Crëwyd gwaith newydd a chyffrous drwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r 10 o gyfranogwyr yn dweud bod yr encil wedi'u helpu i ddatblygu eu sgiliau perfformio barddoniaeth. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Mesurau sefydliadol: Adnoddau Dynol**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd y flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Yr holl staff ac aelodau'r bwrdd i gael hyfforddiant ym maes gwrth-hiliaeth ac ablaeth. | Heb ei gyflawni: Mae 2 aelod o staff wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant ym maes gwrth-hiliaeth a rhagfarn ddiarwybod, ac mae rhai Ymddiriedolwyr a'r holl aelodau o staff wedi cymryd rhan mewn sesiwn hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Mae hyfforddiant hefyd wedi'i gynnal i roi trosolwg o lywodraethu i'r Uwch Dîm Arwain a'r Ymddiriedolwyr.<br>Yn Chwarter 1 24/25, o dan y rhaglen Newid Diwylliant rydyn ni'n rhan ohoni, bydd hyfforddiant ym maes gwrth-hiliaeth ac ableddiaeth yn cael ei roi, a hwnnw'n canolbwyntio'n benodol ar y celfyddydau. Roedden ni'n bwriadu comisiynu rhywfaint o hyfforddiant i'r tîm, ac felly er mwyn peidio â dyblygu gwaith/costau, bydd rhai aelodau o staff yn gallu cymryd rhan yn yr hyfforddiant hwn ac yn rhannu'r hyn y byddan nhw'n ei ddysgu â'r tîm. Byddwn ni'n parhau i chwilio am gyfleoedd hyfforddiant eraill er mwyn i'r staff ddatblygu arbenigedd a sgiliau, gan rannu hynny â'r tîm ehangach. | Cofnodion Adnoddau Dynol |
| Cefnogi o leiaf 2 aelod o staff nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg (neu sy'n ddysgwyr newydd) ac sydd heb ymweld â'r Eisteddfod o'r blaen i fynychu, drwy eu hebrwng a hwyluso'u hymweliad | Wedi'i gwblhau: Ymwelodd dau aelod o staff sy'n dysgu'r Gymraeg ag Eisteddfod yr Urdd yn Chwarter 1 i ddarparu gweithgareddau, gyda chymorth cydweithwyr.<br><br>Ymwelodd dau aelod o staff sy'n dysgu'r Gymraeg â'r Eisteddfod Genedlaethol yn 2023, sef Claire Furlong am yr ail waith ac Emily Dafydd-Drew am y tro cyntaf. Cawson nhw gymorth Mared Roberts a Miriam Sautin i fynd i ddigwyddiadau a chwrdd ag artistiaid a rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector, yn ogystal â mynd i noson gomedi i ddysgwyr Cymraeg, lle roedden nhw'n deall y jôcs (neu'r rhan fwyaf ohonyn nhw, beth bynnag). | |
| Darparu hanner diwrnod o hyfforddiant mewnol i staff sy'n rhugl eu Cymraeg i ymarfer a datblygu naws llais Llenyddiaeth Cymru wrth lunio negeseuon cyfathrebu yn Gymraeg. | Heb eu cyflawni: Mae ein dull o weithio wedi newid fymryn. Mae dogfen arddull tŷ a naws llais Llenyddiaeth Cymru wedi cael ei diweddaru, ond nid yw'r newidiadau'n eu cynnig eu hunain ar gyfer sesiwn hyfforddiant i'r holl dîm eto, gan nad yw dull unffurf yn addas i'n negeseuon. Mae'r broses o gymeradwyo dogfennau allanol yn cynnwys sicrhau bod naws ein llais yn addas i'r gynulleidfa darged. Fel rhan o'r broses hon, cyn hir bydd rhestr wirio ar gael ar gyfer y pethau y dylai'r holl aelodau o staff eu hystyried a'u trafod gyda'r Arweinydd Cyfathrebu cyn ysgrifennu copi. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Gweithredol

## Uchafbwyntiau Chwarter 4

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | **Cynnydd y flwyddyn hyd yma** | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Sicrhau o leiaf 3 gwahoddiad i gyfrannu at ddigwyddiadau allanol (e.e. bod yn rhan o baneli/cyflwyniadau/siarad yn gyhoeddus) | Siaradodd staff Llenyddiaeth Cymru mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau allanol, gan gynnwys digwyddiad gan Gyngor Llyfrau Cymru yn dathlu eu Cronfa Datblygu Cynulleidfaoedd, bord gron diwylliannol a drefnwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a digwyddiad gan Gymdeithas Lenyddol Casnewydd a Gwent. Rhoddodd Llenyddiaeth Cymru hefyd gyflwyniad am ein gwaith i ddirprwyaeth o Sefydliadau Diwylliannol Cenedlaethol yr Undeb Ewropeaidd ar ran Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a chyflwyniad am ein gwaith ym maes iechyd a llesiant i ddirprwyaeth o Hong Kong ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru a Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru, drwy'r British Council. | Tystiolaeth o ddyddiaduron/Log cymorth i'r sector |
| 4 aelod o staff yn elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus | Eleni rydyn ni wedi rhagori ar y targed hwn, gyda 5 aelod o staff yn elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus. Mae hyn yn cynnwys staff yn cymryd rhan mewn cyrsiau Cymraeg, gan ddatblygu eu sgiliau a'u hyder er mwyn gallu defnyddio a deall Cymraeg yn y gweithle. Mae un aelod o staff wedi parhau i ddatblygu ei sgiliau Cyfrifyddu Ariannol wrth astudio at gymhwyster diploma AAT Lefel 3, ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni hyn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf (2024-25). | Cofnodion Adnoddau Dynol |
| Cyhoeddi adnoddau ar gyfer awduron, gan gynnwys adnoddau mentora ar gyfer prosiectau cyfranogol, adnoddau ym maes llesiant, ac adnoddau ar gyfer gweithio gyda phobl greadigol anabl. At hynny, byddwn ni'n cyhoeddi canllawiau a fideos i egin awduron er mwyn datblygu eu sgiliau. | Erbyn diwedd mis Mawrth 2024, roedd 13 o adnoddau newydd wedi'u cyhoeddi ar wefan Llenyddiaeth Cymru yn 2023-24, gan greu cyfanswm o 7 o adnoddau Cymraeg ac 11 o adnoddau Saesneg i helpu i ddatblygu awduron. Mae'r adnoddau hyn yn trin a thrafod amrywiaeth o bynciau, fel datblygu eich brand fel awdur, sut i ddelio â chael eich gwrthod, gwaith mentor, dod yn ymarferydd neu'n hwylusydd, ysgrifennu a chyhoeddi, ac adolygu a phrawfddarllen eich gwaith. Eleni hefyd rydyn ni wedi cyhoeddi 3 o adnoddau a fodolai eisoes mewn fformatau hygyrch, a'r rheini bellach ar gael mewn dogfennau print mawr a dogfennau sy'n ystyriol o ddyslecsia. | Cofnod o adnoddau cyhoeddedig, monitro ystadegau am eu defnydd ac adborth |
| 1 prosiect neu ddigwyddiad wedi'i gynnal yn Nhŷ Newydd er budd y gymuned leol yn Llanystumdwy | Croesawyd Ysgol Llanystumdwy i Dŷ Newydd ddwywaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd yr ymweliad cyntaf yn sesiwn brynhawn – sesiwn stori i'r disgyblion iau a gweithdy barddoniaeth i'r rhai hŷn. Ar gyfer eu hail ymweliad, gwahoddwyd Anni Llŷn, cyn-Fardd Plant Cymru, i weithio gyda nhw am hanner diwrnod. Gadawodd pob disgybl gyda'i lyfr stori unigryw ei hun. Mae'r ymweliadau hyn yn rhan o'n hymdrechion parhaus i sefydlu presenoldeb Llenyddiaeth Cymru yn y gymuned leol ac i greu cysylltiadau cryfach â'r ysgol yn benodol. | Y rhaglen |

# Targedau Gweithredol

## Targedau a fethwyd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd y flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Creu Cynllun Datblygu Cynulleidfaoedd | Nid yw'r Cynllun Datblygu Cynulleidfaoedd wedi'i gwblhau eleni yn unol â'r bwriad. Serch hynny, mae aelodau o'r tîm cyfathrebu wedi cael trafodaethau gyda'r sector cyfan am ddatblygu cynulleidfaoedd. Bu oedi wrth gwblhau'r cynllun er mwyn gallu gwneud rhagor o waith i sicrhau ein bod ni'n dilyn arferion cyfredol. Mae strwythur ar gyfer y ddogfen wedi'i ddrafftio, a chytunwyd ar ddyddiad cwblhau newydd, sef mis Mehefin 2024. | Tystiolaeth o Ddogfen |
| Cynnal o leiaf ddwy sesiwn hyfforddiant i sefydliadau allanol er mwyn datblygu eu dull o weithredu | Dydyn ni ddim wedi cyflawni'r targed hwn, ac ni ddarparwyd unrhyw sesiynau hyfforddiant allanol eleni. Serch hynny, rydyn ni wedi helpu sefydliadau allanol fel Prifysgol Aberystwyth a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu eu dulliau gweithredu drwy sgyrsiau anffurfiol a thrwy rannu adnoddau. Er enghraifft, yn gynharach yn y flwyddyn fe roeson ni gyngor i Honno Press ynghylch mater cyfathrebu sensitif drwy rannu ein polisïau a'n gweithdrefnau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a materion diogelu, a thrafod â nhw sut rydyn ni wedi delio â sefyllfaoedd tebyg yn y gorffennol. | Cytundebau â sefydliadau |
| Cynnal archwiliad ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn dadansoddi polisïau'r sefydliad | Dydyn ni ddim wedi cynnal archwiliad cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant llawn, er bod ein holl bolisïau wedi'u dadansoddi a'u golygu fel rhan o'n diweddariad polisi blynyddol. Yn hytrach na chynnal archwiliad untro, byddwn ni'n adolygu ac yn gwella ein polisïau yn barhaus ar sail hyfforddiant rheolaidd i staff ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Er enghraifft, rydyn ni'n bwriadu trefnu i aelod o staff gael hyfforddiant gwrth-hiliaeth drwy'r rhaglen Newid Diwylliant, cyn rhoi adborth i weddill y staff, yn 2024-25. | Nodiadau ysgrifenedig am ddiweddariadau |

# Cynaladwyedd: Uchafbwyntiau a diweddariadau

## Cynnydd chwarter 4

Yn Chwarter 4, cafwyd diweddariad arall am gynaliadwyedd fel rhan o gyfarfod i'r holl staff. Y tro hwn, canolbwyntiwyd ar gyflenwadau swyddfa a gwastraff ac ailgylchu. Roedd y sesiwn hon yn atgoffa'r staff o'n targedau cynaliadwyedd a'r camau gweithredu cysylltiedig, yn rhoi diweddariad am ein cynnydd at gyflawni'r targedau hyn, ac yn rhoi cyfle i'r staff grybwyll unrhyw rwystrau posibl neu atebion gwahanol.

Yn y cyfarfod staff hwn, bu modd i ni sôn am hefyd am y system ailgylchu newydd a gyflwynwyd yn y ddwy swyddfa yn sgil newidiadau Llywodraeth Cymru i'r cyfreithiau ailgylchu sy'n berthnasol i weithleoedd. I sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r cyfreithiau hyn ynghylch sut y caiff gwastraff ei gasglu, sy'n cynnwys gwahanu deunydd i'w ailgylchu i wahanol flychau, rydyn ni wedi darparu mwy o finiau ac wedi creu labeli a phosteri clir i helpu'r staff i ailgylchu'n gywir. Roedd y cyfarfod staff hefyd yn cynnwys cwis ynghylch sut y dylid gwahanu eitemau penodol o dan y system newydd hon.

Atgoffwyd y staff fod angen diffodd dyfeisiau trydanol ar ddiwedd y dydd, a rhoddwyd cyfarwyddiadau eto am sut i ddefnyddio'r opsiynau sy'n arbed ynni ar liniaduron.

Rydyn ni'n parhau i flaenoriaethu cynhyrchion sy'n llesol i'r amgylchedd a chyflenwyr lleol wrth brynu deunydd ysgrifennu a chyflenwadau swyddfa. Er enghraifft, yn ystod y chwarter hwn, archebodd swyddfa Caerdydd lyfrau nodiadau wedi'u creu o bapur wedi'i ailgylchu gan MCM Office Supplies (sy'n gwmni lleol yng Nghaerdydd). Serch hynny, mae rhai eitemau'n dal i gael eu prynu drwy Amazon – yn fwyaf nodedig, sgriniau a chadeiriau swyddfa yn ystod y chwarter hwn. Byddwn ni'n monitro'r gwariant yn agosach pan fydd manylion ariannol 2023-24 ar gael, ac yn edrych i weld a oes angen gwneud unrhyw ymyriadau.

## Chwarter 4 Targedau a fethwyd

Er ein bod wedi cyrraedd ein targed gan mwyaf i greu detholiadau digidol yn unig o waith ar ddiwedd cyrsiau Tŷ Newydd (yn hytrach na rhai wedi'u hargraffu ar bapur), roedd un cwrs ysgol yn golygu argraffu detholiad o'r gwaith ar bapur. Serch hynny, cyfrannodd yr ysgol at y costau argraffu, ac yn y dyfodol byddwn ni'n diweddaru'r contractau archebu i egluro nad ydyn ni'n argraffu detholiadau papur.

Dydyn ni ddim wedi cyrraedd ein targed i leihau'r deunydd sydd wedi'i storio yn y cwmwl i 450GB (gan leihau'r allyriadau carbon cysylltiedig a gaiff eu creu drwy ddefnyddio trydan a systemau oeri). Cynyddodd y deunydd sydd wedi'i storio i 865.18GB erbyn diwedd mis Mawrth 2024 (o 577.15GB ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf). Bydd y targed hwn yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn realistig ac ystyried maint ffeiliau sy'n defnyddio gwahanol gyfryngau (fel delweddau a fideos). Serch hynny, byddwn ni'n cadw targedau uchelgeisiol ac yn gweithio i geisio cyflawni'r targedau hyn drwy drefnu sesiynau rheolaidd i staff glirio ffeiliau a negeseuon e-bost diangen – gyda'r sesiwn gyntaf o'r fath i'w chynnal ym mis Ebrill 2024.

Dydyn ni ddim wedi gwneud cynnydd mesuradwy i flaenoriaethu cyflenwyr lleol ar gyfer anghenion arlwyo Tŷ Newydd. Mae bwyd yn cael ei brynu gan gigydd lleol, deli lleol, cyfanwerthwr llysiau sy'n danfon i'r drws, cwmni coffi lleol, a chyflenwr figan lleol, yn ogystal â gan y cyflenwyr lleol Oren a Harlech. Serch hynny, mae bwyd yn dal i gael ei brynu'n rheolaidd o Tesco, a blaenoriaeth yn 2024-25 fydd creu system ar gyfer monitro'n rheolaidd faint o gyfran y gwariant ar arlwyo sy'n mynd i gyflenwyr lleol, a chreu targedau mesuradwy i gynyddu hyn yn ôl y galw.

Byddwn ni hefyd yn achlysurol yn prynu llaeth sy'n cael ei werthu mewn poteli gwydr (yn hytrach na phlastig) a llaeth o fferm leol. Serch hynny, gan fod angen teithio i'r lleoliad, dim ond pan fyddwn ni yn yr ardal y gwneir hyn, er mwyn osgoi teithio'n benodol yno (ac osgoi creu'r allyriadau cysylltiedig). Byddwn ni'n ceisio trefnu bod llaeth lleol yn cael ei ddanfon aton ni'n wythnosol yn 2024-25 er mwyn cynyddu'n sylweddol gyfran y llaeth sy'n cael ei brynu'n lleol ac sy'n dod mewn poteli gwydr y gellir eu hailddefnyddio.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Gwersi i'w Dysgu: Gweithgaredd a Gweithredol

| Gweithgaredd | Gwersi i'w Dysgu:<br>1 Ionawr – 31 Mawrth 2023 | Argymhellion/ Gweithrediadau ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|
| Ffigurau cynulleidfaoedd Cynrychioli Cymru | Denodd saith o sesiynau agored 305 o gofrestriadau unigol, ond dim ond 71% a wnaeth fynychu neu wylio'r sesiynau. Yn ôl yr adborth a gasglwyd, roedd dau rwystr i esbonio'r gostyngiad:<br>Roedd dechrau sesiynau am 5.30 yn anodd i'r rheini sy'n gweithio, ac roedd themâu'r sesiynau'n rhy benodol. | Bydd sesiynau agored Cynrychioli Cymru yn y dyfodol yn dechrau am 6pm. Byddan nhw'n canolbwyntio'n fwy cyffredinol ar themâu sy'n ymwneud â'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig, yn hytrach nag ar genres penodol (fel gwaith ffeithiol-greadigol). |
| Cyffredinol: galwadau agored | Mae cyfleoedd sydd ar agor i awduron a hwyluswyr drwy alwadau agored yn parhau i ddod yn fwy poblogaidd. Dyma ddatblygiad cadarnhaol, ond bod nifer yr awduron sy'n cael eu gwrthod ar gyfer cyfleoedd hefyd yn cynyddu o ganlyniad i hyn. Mae gwersi pwysig eisoes wedi cael eu dysgu a'u rhoi ar waith, ond bydd angen ystyried cymryd rhagor o gamau. | - Ystyried cynnig cyfleoedd i awduron sydd heb gymryd rhan yng nghyfleoedd y gorffennol (gan roi'r amod hon yn un o'r meini prawf ar gyfer bod yn gymwys)<br>- Yn dilyn ailwampio'r cyfarfod creadigol, mae trafod awduron yn eitem barhaol ar yr agenda |
| Bardd Plant a'r Children's Laureate (a Bardd Cenedlaethol Cymru) | Mae prosiectau'r beirdd cenedlaethol yn cael eu rheoli gan un aelod y staff yr un. Ar ôl i un o'n Cydlynwyr Creadigol adael ym mis Mawrth, ac yntau'n rheoli'r ddau fardd plant, rydyn ni wedi colli parhad a gwybodaeth am y prosiectau. Dylid osgoi hyn yn y dyfodol. | Bydd angen i'r Cyfarwyddwr Artistig weithio'n agosach gyda'r staff sy'n arwain prosiectau pan fydd dim ond un aelod o staff yn gyfrifol am bethau, er mwyn rhoi cymorth mwy dwys a sicrhau ein bod yn cadw gwybodaeth am brosiectau a dealltwriaeth ohonyn nhw. |
| Cyfathrebu ein heffaith | Mae nifer o'n targedau sy'n gysylltiedig â chyfathrebu ein heffaith wedi newid dros y flwyddyn wrth i ni feddwl yn fanylach am gynulleidfaoedd targed ein negeseuon. | - Grŵp newydd i drafod pa fath o gynnyrch sy'n berthnasol i wahanol gynulleidfaoedd wrth gyfathrebu ein heffaith<br>- Templed adrodd blynyddol newydd a difyr wedi'i greu i sicrhau y gellir ei ddefnyddio at wahanol ddibenion |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25

Ar ôl yr adolygiad buddsoddi yn 2023, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'i gwneud yn ofynnol i gwmnïau sy'n rhan o'r portffolio ac sy'n cael cyllid aml-flwyddyn gyflwyno adroddiadau ddwywaith y flwyddyn am eu hegwyddorion buddsoddi, sef:

- Creadigrwydd
- Ehangu ymgysylltiad
- Y Gymraeg
- Cyfiawnder Hinsawdd
- Meithrin Talent
- Trawsnewid

Yn y dyfodol, bydd Llenyddiaeth Cymru yn adrodd am ein nodau a'n blaenoriaethau o dan bob un o egwyddorion y Cyngor Celfyddydau uchod. Mae'r rhain i gyd yn ganlyniadau CAMPUS a dylen nhw roi darlun clir i'n cyllidwyr, ein bwrdd a'r cyhoedd o'n gweithgareddau a'n cynnydd. Serch hynny, nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'n holl weithgareddau.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25: Creadigrwydd

| Nod Cysylltiedig Llenyddiaeth Cymru | Canlyniad | Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| **Diwylliant Llenyddol Cymru: Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-Eang** | Creir gwaith creadigol newydd sy'n cyfoethogi hunaniaeth lenyddol Cymru | 8 darn o waith comisiwn newydd gan y Bardd Cenedlaethol, wedi'u cyhoeddi a/neu berfformio. |
| | | Antholeg wedi'i gyhoeddi yn cynnwys gwaith gan 14 awdur o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen datblygu awduron Cynrychioli Cymru yn y gorffennol. |
| | | 2 gwaith newydd wedi'u hysgrifennu a'u harddangos yn greadigol (e.e. fel murlun neu drwy cod QR ar daith llenyddol) ym Methesda a Tyddewi, wedi eu creu ar y cyd rhwng awduron lleol a chyfranogwyr o'r gymuned, yn adlewyrchu ar themâu o'r argyfwng hinsawdd |
| **Cynrychiolaeth & Chydraddoldeb: Cymru Fwy Cyfartal** | Mae awduron o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg yn derbyn llwyfan ac yn cael eu dathlu, trwy berfformiadau, comisiynau a chael eu penodi'n diwtoriaid, beirniaid ac yn feirdd llawryfog. | 60 awdur o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg yn cymryd rhan mewn rhaglenni datblygu awduron dwys (megis Cynrychioli Cymru neu Gwrs Strategol TN) |
| | | 3 astudiaeth achos yn cael eu cyhoeddi yn dathlu awduron o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg sydd wedi elwa o raglenni LlC |
| | | 5 awdur o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg sydd wedi cymryd rhan mewn rhaglenni datblygu awduron LlC yn cael eu gwahodd am y tro cyntaf fel tiwtoriaid neu ddarllenydd gwadd ar gyrsiau Tŷ Newydd (wyneb yn wyneb neu yn rhithiol) |
| **Datblygu Awduron: Cymru Lewyrchus** | Sector byrlymus sy'n ffynnu ar gyfer awduron a hwyluswyr llenyddol lle cânt eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau creadigol | 6 hwyluswyr Sgwennu'n Well yn cael eu cefnogi i gynllunio a chyflawni prosiectau creadigol ar gyfer iechyd a llesiant yn eu cymunedau dewisedig |
| | | 10 awdur sydd yn cymryd rhan yn Awduron wrth eu Gwaith yng Ngŵyl y Gelli yn adrodd datblygiad gyrfaol cadarnhaol o ganlyniad i gymryd rhan yn y cyfle datblygu dwys |
| | | 10 awdur Byddar a/neu Anabl yn adrodd cynnydd yn eu hyder a gwelliant yn eu sgiliau creadigol ar ôl cymryd rhan yn y cwrs Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25: Ehangu Ymgysylltiad

| Nod Cysylltiedig Llenyddiaeth Cymru | Canlyniad | Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| Gweithrediadau | Cynnydd mewn hyder ac arbenigedd sefydliadol wrth roi cynhwysedd a hygyrchedd wrth wraidd cynllunio creadigol | Rhaglen mewn partneriaeth â Hijinx yn darparu addysg i staff am arferion hygyrch a bydd cynlluniau i'w gweithredu wedi cwblhau erbyn mis Mawrth 2025. Mae'r rhaglen wedi ei anelu at unigolion creadigol sydd ag anabledd dysgu a/neu yn niwrowahanol ac sydd o gymunedau sydd â phrofiad o hiliaeth. |
| | | Staff yn adrodd cynnydd mewn hyder ac ymwybyddiaeth wrth wneud prosiectau yn hygyrch ac yn gynhwysol, ac yn defnyddio chyfarfodydd staff a creadigol i rannu gwybodaeth ac arbenigedd. |
| | | Staff yn dangos hyder wrth roi ein canllawiau Cyfathrebu Hygyrch (wedi ei gyflwyno i'r tîm yn Chwefror 2024) ar waith. |
| Cyfranogi: Cymru o Gymunedau Gydlynus | Mae cyfleoedd i ymwneud â llenyddiaeth yn cael eu darganfod gan unigolion ledled Cymru | 150 o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu hariannu trwy Gronfa Ysbrydoli Cymunedau, a dwy astudiaeth achos yn cael eu rhannu gan drefnwyr digwyddiadau yn manylu sut i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. |
| | | 40 pobl ifanc yn mynychu Sgwadiau Sgwennu am y tro cyntaf ac yn adrodd yn bositif am sgiliau creadigol a llesiant. |
| | | 20 aelod ifanc o'r gymuned LHDTC+ yn derbyn gweithdy gan Fardd Plant Cymru, Nia Morais, yn Eisteddfod yr Urdd. |
| Cynrychiolaeth & Chydraddoldeb: Cymru Fwy Cyfartal | Mae cymunedau a dangynrychiolir yn hanesyddol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llenyddol | 60 aelod o'r gymuned ym Methesda yn cymryd rhan mewn gweithgaredd trwy brosiect Llên mewn Lle a'r partneriaid lleol yn adrodd effeithiau positif ar y gymuned leol a'u hymwneud â Llenyddiaeth. |
| | | Gweithgaredd mapio o lle mae ariannu Ysbrydoli Cymunedau wedi cael ei ddosbarthu ers 2021, i'w gwblhau erbyn Haf 2024, gydag ardaloedd gwag wedi'u hadnabod ac o ganlyniad cyflawni gwaith i feithrin perthynas / cefnogaeth i ymgeisio ar gyfer y gronfa. |
| | | 10 aelod o'r gymuned ffermio yng nghanolbarth Cymru yn ymwneud â gweithgaredd llenyddol trwy Sgwennu'n Well i gefnogi iechyd meddwl a llesiant. |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25: Y Gymraeg

| Nod Cysylltiedig Llenyddiaeth Cymru | Canlyniad | Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| Y Gymraeg: Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Mae awduron (gweithwyr proffesiynol, cyfranogwyr a Phlant a Phobl Ifanc) yn datblygu sgiliau creadigol - ac yn cael eu hannog i greu gwaith artistig arloesol - trwy gyfrwng y Gymraeg | Dros 400 o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg yn gweithio gyda Bardd Plant Cymru, Nia Morais, ar sesiwn farddoniaeth Ecphrastig. Mae'r prosiect yma yn cyfrannu at Fenter Siarter Iaith, yn hwyluso gweithgareddau creadigol sydd yn ysbrydoli disgyblion i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau. |
| | | Encil Llyfrau Lliwgar ar gyfer awduron Cymraeg LHDTC+ yn denu 12 awdur, 25% o'r rhain sydd heb ysgrifennu yn y Gymraeg yn y gorffennol. |
| | | Y 12 awdur ifanc sy'n cymryd rhan yng Nghwrs Olwen yn adrodd eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ac wedi'u hysbrydoli i ddechrau eu gyrfaoedd ysgrifennu trwy gyfrwng y Gymraeg |
| Y Gymraeg: Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu | Cymru sy'n dathlu ein diwylliant a'n traddodiadau llenyddol Cymreig unigryw ac amrywiol gyda hyder, gan sicrhau eu bod yn ffynnu | Y Wobr, a'r enillwyr Cymraeg, yn cael sylw mewn 2 ddarn o gyfryngau Saesneg dros y DU. |
| | | 5 bardd o du allan i Gymru yn cymryd rhan mewn prosiect gyda Hanan Issa, Bardd Cenedlaethol Cymru, i ddysgu rhagor am y gynghanedd. Y 5 bardd yn ysgrifennu 5 cerdd newydd wedi ei ysbrydoli gan y gynghanedd. |
| | | Sylw yn y cyfryngau i deithiau'r 5 cynganeddwyr sydd yn ymgolli yn nhraddodiad llenyddol y gynghanedd; gyda'r cyhoedd trwy Barddas, a Radio Cymru |
| Gweithrediadau | Diwylliant o barch, dealltwriaeth a brwdfrydedd tuag at yr iaith Gymraeg a'i thraddodiad llenyddol o fewn ein swyddfeydd, ein rhwydweithiau llawrydd a'r sector ehangach. | Unwaith yr wythnos, aelod o'r tîm sydd yn siarad Cymraeg i ymuno â chyfarfod grŵp answyddogol i gefnogi datblygiad dysgwyr, helpu i ysgogi sgyrsiau mewn man diogel a chynyddu hyder dysgwyr. |
| | | Datblygu partneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynnig cwrs pwrpasol ar gyfer dysgu Cymraeg i awduron sydd yn cymryd rhan yn ein rhaglenni, yn dilyn cynllun peilot yn 2023. |
| | | 1 astudiaeth achos yn cael ei gyhoeddi yn dathlu awdur sydd yn siaradwr Cymraeg newydd ac wedi elwa o raglenni LlC. |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25:Cyfiawnder Hinsawdd

| Nod Cysylltiedig Llenyddiaeth Cymru | Canlyniad | Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| Argyfwng Hinsawdd: Cymru Gydnerth | Mae gweithgarwch sy'n defnyddio llenyddiaeth i gynyddu dealltwriaeth am yr argyfwng hinsawdd yn ysbrydoli unigolion a chymunedau i wneud newidiadau er lles yr amgylchedd a'r hinsawdd | Cyfranogwyr o EcoDewi ym Mhenrhyn Tyddewi yn teimlo wedi eu grymuso i daclo materion cyfiawnder hinsawdd leol, a chynnydd yn y teimlad o gydlyniad cymunedol yn dilyn cyfranogiad ym mhrosiect Llên mewn Lle. |
| | | 100 o blant ym Mhowys yn ymwneud ag ysgrifennu am natur a materion hinsawdd o fewn eu hardaloedd lleol trwy weithdai gyda'r Children's Laureate. |
| | | 14 awdur sydd yn cymryd rhan yn y Cwrs Egin Awduron wedi eu cyfarparu a'u grymuso i ddod â sylw i'r argyfwng hinsawdd trwy eu hysgrifennu. |
| Gweithrediadau | Cynnydd mewn dealltwriaeth ar draws tîm Llenyddiaeth Cymru o effaith amgylcheddol ein gwaith, a chynnydd mewn hyder wrth ystyried a gweithredu arferion cynaliadwy | Erbyn mis Mawrth 2025, cwblhau gweithgaredd mapio Rhestr Awduron Cymru i ddeall lledaeniad hwyluswyr llenyddol ar draws Cymru, yn sicrhau bod hwyluswyr lleol gallu cael eu blaenoriaethu. |
| | | Erbyn Rhagfyr 2024, fframwaith ar gyfer rhedeg digwyddiadau llenyddol cynaliadwy yn cael ei greu a'i rannu gyda'r tîm cyfan, a gyda threfnwyr digwyddiadau trwy ein gwefan. |
| | | Asesu cost bwyd y pen, yn edrych ar flaenoriaethu cyflenwyr lleol dros archfarchnadoedd/cyfanwerthwyr mawr. Cynnig yn cael ei greu erbyn Ionawr 25, gyda camau gweithredu arfaethedig ar gyfer 25/26. |
| Gweithrediadau | Lleihau allyriadau carbon weithrediadau Llenyddiaeth Cymru, ar y trywydd iawn i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 | Erbyn mis Mawrth 2025, ymchwilio ymarferoldeb olrhain allyriadau carbon Llenyddiaeth Cymru (uniongyrchol ac eilaidd), gan gynnwys cynllun gweithredu. |
| | | Gofyn i staff esbonio pam na ddefnyddwyd trafnidiaeth gyhoeddus wrth lenwi Ffurflenni Hawlio Teithio a Chynhaliaeth er mwyn annog ymwybyddiaeth ofalgar wrth deithio ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau, ac adnabod atebion posibl ar gyfer lleihau allyriadau teithio. |
| | | Sefydlu man gwefru ceir trydanol yn Nhŷ Newydd a'i hyrwyddo er mwyn annog defnydd. |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25: Meithrin Talent

| Nod Cysylltiedig Llenyddiaeth Cymru | Canlyniad | Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| Gweithrediadau | Cefnogi gweithlu medrus a gweledigaethol o weithwyr llawrydd, awduron proffesiynol a staff o fewn y sector llenyddol gan ddarparu hyfforddiant, cyfleoedd â thâl ac eirioli dros ymarferion cyflogi teg. | Cyhoeddi diweddariad canllawiau Ffioedd Awduron a chanllawiau Cyflogaeth Deg ym mis Mawrth 2025. Ffioedd i gael eu olrhain yn Ebrill 2024, a ffioedd ar gyfer 2024/25 i gael eu olrhain a mesuro yn erbyn canllawiau. |
| | | Aelod o'r uwch dîm yn cymryd rhan yn rhaglen hyfforddi Newid Diwylliant/Culture Change, sydd wedi ei anelu at ddatblygu amrywiaeth mewn rolau arweiniol. Lledaenu'r dysgu yn fewnol, a gweithrediadau priodol wedi eu cynllunio/gweithredu. |
| | | Cynnig cyfleoedd cyflogedig uniongyrchol i 175 awdur proffesiynol; i fod yn diwtor, mentor, hyfforddi neu berfformio ar raglenni LlC. |
| Cynrychiolaeth & Chydraddoldeb: Cymru Fwy Cyfartal | Mae awduron, yn enwedig awduron o gymunedau sy'n wynebu rhwystrau rhag ddatblygu eu sgiliau a'u gyrfaoedd, yn derbyn cefnogaeth i wneud cynnydd gyda'u 'sgwennu a chyfleoedd cyhoeddi | 50% o gyfranogwyr Cynrychioli Cymru, sydd yn dymuno, i fynd ymlaen i gyhoeddi eu gwaith o fewn tair mlynedd o gymryd rhan yn y rhaglen. |
| | | Datblygu'r cynllun Awduron wrth eu Gwaith, mewn partneriaeth â Gŵyl y Gelli, yn 2025 i flaenoriaethu ac annog ceisiadau o awduron heb gynrychiolaeth deg, ac anelu at hanner o'r garfan i hunan-adnabod fel eu bod wedi wynebu rhwystrau. |
| | | 5 cynganeddwyr newydd o gynllun Pencerdd, sydd heb gynrychiolaeth deg o fewn y maes cynghaneddu, i'w cael eu paru gyda mentor unigol. |
| Diwylliant Llenyddol Cymru: Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-Eang | Dethlir yr ystod amrywiol o awduron cyfoes a threftadaeth lenyddol Cymru a thrwy hyn, anogir rhagor o gyd-ddealltwriaeth ledled Cymru | Bardd Cenedlaethol Cymru a'i gwaith yn cael ei llwyfannu mewn 5 digwyddiad proffil uchel yng Nghymru, megis agoriad y coetir coffa Erddig ym mis Mehefin. |
| | | Enillwyr ac awduron ar restr fer Llyfr y Flwyddyn yn cael eu cefnogi gan LlC i gynnal o leiaf 20 digwyddiad mewn cymunedau ar draws Cymru, yn lledaenu ymwybyddiaeth o'u gwaith a'r wobr. |
| | | 190 o awduron unigol wedi eu cefnogi trwy Gronfa Ysbrydoli Cymunedau i weithio mewn cymunedau ar draws Cymru. |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 24/25: Trawsnewid

| Nod Cysylltiedig Llenyddiaeth Cymru | Canlyniad | Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| Gweithrediadau | Cynnydd mewn synnwyr mewnol ac allanol o'r hyn mae Llenyddiaeth Cymru yn bodoli i gyflawni ac, yn hanfodol, beth nag ydy'n cyflawni, trwy gynnydd mewn cydweithio gyda sefydliadau eraill a neges syml cyd cysylltiedig gan y sector cyfan. | Erbyn mis Medi 2024, Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd wedi cael ei drafod a chytuno gyda Chyngor Llyfrau Cymru, yn diffinio ein rolau ac adrannau ar gyfer cydweithio. |
| | | Erbyn Mawrth 2025, arwain 3 cyfarfod i drafod materion sector gyda phartneriaid llenyddol ar draws Cymru. |
| | | Erbyn Mawrth 2025, cyflawni ymgyrch cyfathrebu ar y cyd â sefydliadau llenyddol allweddol yng Nghymru i esbonio ein rolau unigol a meysydd ar gyfer cydweithio. |
| Gweithrediadau | Diwylliant sefydliadol sydd yn ymgorffori gwerthoedd sydd wedi eu hamlinellu yn Ein Haddewid ac sydd yn arwain y sector fel model o gyflogwr effeithiol a moesegol o staff a gweithwyr llawrydd. | Rheolwyr llinell yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus yn eu gallu i ddelio â sgyrsiau anodd gyda chydweithwyr, o ganlyniad i hyfforddiant. |
| | | Cyflawni diwrnod cwrdd i ffwrdd ar gyfer staff ac ymddiriedolwyr yn Hydref 2024 sydd yn cynnig hyfforddiant, cynnydd mewn dealltwriaeth o strategaeth LlC, a meithrin ethos o gydweithio rhwng y ddau grŵp. |
| | | Ein tîm yn dweud eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan Llenyddiaeth Cymru fel cyflogwr. |
| Iechyd & Llesiant: Cymru Iachach | Mae rhwydwaith o hwyluswyr llenyddol yn cael ei ffurfio a'i hehangu er mwyn dod â llenyddiaeth er lles i gymunedau | Cyfranogwyr Sgwennu'n Well yn dweud eu bod nhw'n teimlo bod y rhaglen wedi datblygu rhwydwaith cryf i rannu eu gwybodaeth newydd er mwyn ysbrydoli eraill, yn cynnwys trwy bartneriaeth â WAHWN. |
| | | 4 hwylusydd llenyddol yn derbyn hyfforddiant ar ymgorffori llesiant i mewn i weithdai llenyddol gyda phobl ifanc, trwy'r Sgwadiau Sgwennu a CLW/BPC. |